**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**National Assembly for Wales**
Standards of Conduct Committee

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

29 Mai 2019

Annwyl Jane

**Deiseb P-05-818 Cyflwyno Cofrestr o Lobïwyr yng Nghymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Mawrth.

Cyflwynodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad adroddiad ym mis Ionawr 2018 ar ei ymchwiliad i Lobïo. Bu nifer o ddatblygiadau ers y tro diwethaf i'r Cynulliad drafod lobïo; dechreuodd San Steffan weithredu cofrestr o lobïwyr proffesiynol yn 2015 a phasiodd yr Alban ddeddfwriaeth i sefydlu cofrestr lobïo yn 2016.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod angen i lobïo fod yn rhan o ddeialog barhaus mewn democratiaeth agored sy'n cynnwys pawb. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a gasglwyd nad oes ateb hawdd i'r cwestiwn o sut i ddiffinio lobïo na rhannu gwybodaeth amdano. Yn ddiau, mae grwpiau sy'n ceisio dylanwadu ar wleidyddion, a byddai pennu hyd a lled y dylanwad hwn er budd y cyhoedd. Serch hynny, daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd ynghylch y ffordd orau o rannu'r wybodaeth hon wedi'i chael.

Safbwynt dros dro yw canfyddiadau'r adroddiad hwn. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol dysgu o brofiad a chasglu rhagor o dystiolaeth o arfer gorau. Mae'n ddyddiau cynnar ar ddeddfwriaeth yr Alban ac rydym yn monitro'n fanwl yr hyn sy'n digwydd yno a'r adolygiad o'i deddfwriaeth yn 2020. Bydd y Pwyllgor hefyd yn adolygu'r sefyllfa a'r datblygiadau yn San Steffan o bryd i'w gilydd. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gymryd camau yn y cyfnod interim hwn i gynyddu tryloywder a chynigiodd y dylid cynnal treial dethol o gyhoeddi dyddiaduron

Aelodau'r Cynulliad, sy'n ymwneud yn benodol â lobïo. Rydym yn cysylltu â Chomisiwn y Cynulliad ynglŷn â sut i dreialu hyn gydag Aelodau'r Pwyllgor. Gwnaethom hefyd argymell cynnydd yn y wybodaeth a gyhoeddir am ddigwyddiadau a gynhelir ar ystâd y Comisiwn a ddaeth i rym y Pasg diwethaf.

Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylid ystyried comisiynu gwaith ymchwil i'r ffordd y caiff dylanwad ei geisio a'i ennill dros wleidyddion. Byddai rhagor o wybodaeth am yr effaith y mae hyn yn ei chael yn gwella ein dealltwriaeth o ddylanwad lobïwyr. Ochr yn ochr â'r camau interim hyn, mae'r Pwyllgor wedi annog y diwydiant lobïo i gymryd yr awenau dros y ddwy flynedd nesaf. Gall y diwydiant ei hun ddangos sut y byddai cofrestr wirfoddol yn gweithredu a sut y gallai ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol am ddylanwad dros Aelodau etholedig.

Ein hamcan yw y byddai adolygiad o'r gwaith hwn yn 2020 yn ein galluogi i ffurfio casgliadau clir a gwybodus, ac i nodi cynnig ar gyfer y chweched Cynulliad.

Yn gywir,



Jayne Bryant
**Cadeirydd**